# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal St Nicholas House**

**St. Nicholas House**
**Yr Ystog**
**Trefaldwyn**
**SY15 6AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/08/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal St Nicholas House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | St Nicholas House Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Mehefin 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn St Nicholas House. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn dangos parch. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod y bobl yn hapus a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Caiff y bobl gyfleoedd i wneud pethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn dda. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael cyfleoedd hyfforddi i sicrhau y gallant ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol yn dweud wrth y staff gofal sut i gefnogi'r bobl, ond mae angen gwella'r ffordd y caiff risgiau eu rheoli er mwyn helpu'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal na gosod nodau o ran yr hyn yr hoffent ei gyflawni, ac mae angen gwella hyn.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Caiff adroddiadau ansawdd eu llunio sy'n dangos yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella. Mae'r tîm rheoli yn ymrwymedig i wneud newidiadau er mwyn gwella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn St Nicholas House. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwelliannau parhaus i'r amgylchedd.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff gofal yn parchu eu penderfyniadau, gan gynnwys ble maent yn treulio eu diwrnod ac yn bwyta eu prydau, ac unrhyw weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Dywedodd un person wrthym "*I can do as little or as much as I want to do*". Mae'r bobl yn mynegi eu barn am y gwasanaeth drwy gyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol â'r tîm rheoli. Caiff gwelliannau eu gwneud ar sail eu hargymhellion. Er enghraifft, dywedodd y bobl eu bod am ddechrau clwb garddio; mae hyn bellach ar waith. Pan ofynnwyd am yr hyn sy'n dda am fyw yn St Nicholas House, dywedodd un person "*everything*". Gall y bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg os byddant yn dymuno hynny. Gall rhai o'r staff sgwrsio yn ddwyieithog. Mae dogfennau allweddol, gan gynnwys y Datganiad o Ddiben, y canllaw ar y gwasanaeth, y llyfryn gweithgareddau misol a rhai o'r polisïau ar gael yn Gymraeg.

Mae'r tîm rheoli a'r staff yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae perthnasau'r bobl yn canmol y staff gofal ac yn dweud eu bod yn gweithio'n galed i wella bywydau'r bobl. Roedd y sylwadau gan berthnasau yn cynnwys "*staff seem to have a genuine concern for residents*". Gwnaethant ddweud bod y gweithgareddau yn "*brilliant*" a bod y staff yn mynd "*over and above*" i sicrhau bod y bobl yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud. Caiff teuluoedd eu hannog i barhau i fod yn rhan o fywydau'r bobl, sy'n gwella eu llesiant. Caiff atgyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn ymateb pan fydd angen help arnynt. Mae cynlluniau personol ar waith sy'n cofnodi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl. Fodd bynnag, dylai'r bobl gael eu cynnwys wrth ddatblygu'r dogfennau hyn fel bod y staff gofal yn deall yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r arferion recriwtio cadarn yn sicrhau bod y staff gofal yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae angen gwella'r ffordd y caiff risgiau eu rheoli er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi'r bobl i gymryd risgiau a chynnal eu hannibyniaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n ddiogel ac yn hybu eu llesiant. Mae cyfarpar ar waith i hyrwyddo annibyniaeth y bobl, sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn rheolaidd. Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ardal awyr agored er mwyn galluogi pobl ag anghenion symudedd i gyrraedd pob rhan o'r ardd. Mae rhaglen cynnal a chadw barhaus ar waith, gan gynnwys dodrefn newydd yn yr ystafell fwyta ac ailaddurno'r ystafell fwyta i wella profiad bwyta y bobl.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae rhaglen lawn o weithgareddau ar gael. Caiff llyfryn misol ei lunio yn nodi'r hyn sy'n digwydd ar bob diwrnod o'r mis ac yn cynnwys bwydlen ar gyfer pob dydd. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu unigol. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn gallu ymweld â'r cartref unrhyw bryd a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Dywedodd perthnasau wrthym hefyd fod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys mynd i'r eglwys leol. Gwelsom bobl a'u teuluoedd yn mwynhau hufen iâ wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd yn yr ardd. Roedd llawer o chwerthin ac roedd hi'n amlwg bod y bobl yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r staff gweithgareddau ac yn mwynhau bod gyda'u perthnasau. Dywedodd y bobl wrthym y gallant fynd allan i'r gymuned a'u bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.

Caiff cynlluniau personol eu datblygu fel bod y staff gofal yn deall faint o ofal a chymorth sydd eu hangen ar y bobl. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ond nid yw'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses hon. Mae'r nodau a osodir yn seiliedig ar dasgau ond nid ydynt yn bersonol i'r unigolyn. Ni chaiff hanes a dewisiadau personol y bobl eu cofnodi bob amser fel bod y staff gofal yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni. Nid yw'r asesiadau risg bob amser yn dangos y camau i'w cymryd i liniaru risgiau a nodwyd i iechyd a diogelwch y bobl, ac i hyrwyddo annibyniaeth y bobl. Mae'r rheolwr yn rhagweithiol ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae prosesau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Gwnaethant ddweud bod y staff gofal yn ymateb yn gyflym pan fyddant yn galw am gymorth. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am lesiant unigolyn a sut i roi gwybod am hyn. Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant yn unol ag anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau ar waith i arwain y staff gofal o ran materion diogelu.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae'r cofnodion gofal yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae gwybodaeth am anghenion iechyd y bobl ar gael i'r staff gofal yn y cynlluniau personol. Mae cofnodion

yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd yn gyson gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Caiff y dogfennau hyn eu storio'n briodol a chânt eu harchwilio'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae cyfarpar ac addasiadau yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol ac i gynnal eu hannibyniaeth cymaint â phosibl. Mae rhai o'r arwyddion o gwmpas y cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd gwely, a gwelsom eu bod wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl eu mwynhau. Mae cofnodion yn dangos bod rhaglen o waith adnewyddu yn mynd rhagddi. Siaradodd y cogydd yn gadarnhaol am y cynlluniau sydd ar waith i wella profiad bwyta y bobl. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ystafell fwyta yn ogystal â chynyddu'r dewis o brydau. Dywedodd wrthym fod y rheolwyr yn gefnogol iawn i syniadau newydd a fydd yn gwella profiadau'r bobl yn ystod amseroedd bwyd. Gwelsom fod rhai ystafelloedd gwely wedi cael eu hailaddurno a bod lloriau newydd wedi cael eu gosod. Mae'r cofnodion a welsom a'r drafodaeth â'r tîm rheoli yn dangos bod mwy o waith wedi'i gynllunio. Mae gwaith i wella'r ardal awyr agored ar fin dechrau. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y bobl, ac yn gwneud yr ardal yn fwy hygyrch i bobl ag anghenion symudedd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a thaclus. Gwelsom staff domestig yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn arogleuo'n ffres. Gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt yr holl gyfarpar sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith a bod ganddynt gyflenwad da o gynhyrchion glanhau. Mae cofnodion yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant addas, a gwnaethant gadarnhau hyn. Mae'r rheolwr yn cynnal teithiau cerdded wythnosol o gwmpas y cartref sy'n cynnwys gwirio bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael a gwirio glendid y cartref, gan gynnwys y gegin. Dyfarnwyd sgôr o bump (y sgôr uchaf) i'r gegin yn dilyn arolygiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae systemau ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl yn yr amgylchedd. Cynhelir gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar, gan gynnwys y cyfarpar diogelwch tân, y teclynnau codi a chyfarpar arall sydd ei angen i helpu'r bobl i gadw'n ddiogel. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar, gan gynnwys y teclynnau codi, er mwyn hyrwyddo diogelwch y bobl. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Caiff cofnodion eu cadw'n dda ac maent yn dangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael budd o raglen sicrhau ansawdd effeithiol sy'n gwneud y siŵr bod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus. Caiff safbwyntiau'r bobl am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir eu ceisio drwy gyfarfodydd, trafodaethau anffurfiol â'r rheolwr, yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr gweithrediadau pan fyddant yn ymweld. Caiff arolygon eu dosbarthu yn rheolaidd fel ffordd arall i'r bobl roi sylwadau am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, y staff a pherthnasau. Mae hyn yn amlwg yn yr adroddiadau a gaiff eu cwblhau yn dilyn yr ymweliadau. Mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal a gaiff eu cwblhau bob chwe mis yn dangos i'r Unigolyn Cyfrifol yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y gwasanaeth a'r hyn y mae angen ei wella. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn ac yn cynnal archwiliadau rheolaidd o bob agwedd ar y gwasanaeth. Caiff cofnodion eu trefnu'n dda. Mae'r rheolwr yn dangos ymrwymiad i roi syniadau newydd ar waith er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael gwybodaeth glir am y gwasanaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r canllaw ar y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl pan fyddant yn symud i St Nicholas House. Mae'r dogfennau hyn, a rhai o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i arwain y staff, ar gael i bobl yn Gymraeg os byddant yn dymuno eu cael felly.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n briodol ac sy'n cael hyfforddiant a chymorth sy'n berthnasol i'w rôl. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt, ac y gellir siarad â nhw ar unrhyw adeg. Mae cofnodion yn dangos eu bod yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd â'u rheolwr llinell ac asesiad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn yn eu helpu i nodi unrhyw gyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfa neu hyfforddiant y gall fod ei angen arnynt mewn perthynas â'u datblygiad personol. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Mae cofnodion yn dangos bod y pynciau i'w trafod yn cynnwys llesiant y bobl yn ogystal ag unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant sy'n briodol i anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae'r prosesau recriwtio yn sicrhau nad yw staff yn dechrau gweithio hyd nes y caiff yr holl wiriadau gofynnol eu cwblhau. Mae staff newydd yn cwblhau hyfforddiant sefydlu a chyfnod prawf priodol i sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Dylai cynlluniau personol gael eu datblygu gyda'r unigolyn a dylent ddangos sut y bydd yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. Dylent gynnwys y camau i'w cymryd i liniaru risgiau a nodwyd a helpu i gymryd risgiau cadarnhaol. | Newydd |
| 16 | Dylai'r bobl gael y cyfle i gael eu cynnwys wrth adolygu eu cynlluniau personol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni eu canlyniadau personol. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi